# Ffurflen Gais ymholiad / cyngor statudol ar gyfer Datblygiadau Deiliaid Tai

| At ddefnydd swyddfa: |
| --- |
| ENQ/ |

Nodwch fod y ffurflen hon ar gyfer y **rhai hynny sy'n ceisio cyngor ar deilyngdod datblygiad yng nghwrtil tŷ annedd, fflat neu fflat deulawr presennol**. Ar gyfer datblygiad masnachol neu ddiwydiannol, neu ar gyfer anheddau newydd, defnyddiwch y ffurflen ar gyfer Datblygiad nad yw ar gyfer Deiliaid Tai.

**Rhaid i ymholiad cyn-cais dilys gynnwys ffurflen gais wedi ei chwblhau, cynllun lleoliad i raddfa gydnabyddedig, gyda chyfeiriad y Gogledd, yn pennu'r tir y mae'r cais yn ymwneud ag ef a ffi ymgeisio statudol. Heb dalu ffi briodol, ni fydd yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn gallu prosesu eich ymholiad.**

Nid oes angen unrhyw lluniadau ffurfiol neu i raddfa ar hyn o bryd heblaw am gynllun lleoliad a byddwn ond yn cynnal ymweliadau safle mewn amgylchiadau eithriadol. Mae'r cyngor a ddarperir yn asesiad cychwynnol o'r datblygiad arfaethedig, yn seiliedig ar yr wybodaeth a gyflwynwyd gyda'r ymholiad cyn gwneud cais.

Gellir gweld deddfwriaeth Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Gwasanaethau Cyn Cyflwyno Cais) (Cymru) 2016 ar y wefan ganlynol:

http://www.senedd.assembly.wales/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=14501

Ystyrir bod ymholiadau a geir yn ddogfennau sydd ar gael i'w gweld gan y cyhoedd yn amodol ar ddeddfwriaeth diogelu data. Os ydych yn credu bod unrhyw ran o'ch ymholiad yn gyfrinachol, eglurwch pam, ac am ba hyd y mae angen iddi aros yn gyfrinachol. (gweler Cwestiwn 8 – Cyfrinachedd).

Os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch, gallwch weld y ddeddfwriaeth ar y wefan ganlynol:

http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2013/1776/contents/made

Gellir cael canllawiau technegol pellach ar ddatblygiadau deiliaid tai o'r gwefannau hyn hefyd:

http://gov.wales/topics/planning/policy/guidanceandleaflets/householder-permitted-development-rights/?skip=1&lang=cy

## Pryd fyddaf i'n cael ymateb?

Pan fydd eich ymholiad wedi'i gofrestru, byddwch yn cael llythyr cydnabod sy'n nodi cyfeirnod yr ymholiad a manylion cyswllt y Swyddog Achos sy'n ymdrin â'ch ymholiad. Mae'r rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Cynllunio Lleol ddarparu ymateb ysgrifenedig i bob ymholiad statudol dilys cyn cyflwyno cais o fewn 21 diwrnod o'i dderbyn, oni bai y cytunir ar estyniad amser rhwng yr Awdurdod Cynllunio Lleol a'r ymgeisydd. Fel isafswm, dylech ddisgwyl derbyn yr wybodaeth ganlynol fel rhan o'r ymateb ysgrifenedig: hanes cynllunio perthnasol y safle; y polisïau cynllun datblygu perthnasol y bydd y cynnig datblygu yn cael ei asesu yn eu herbyn; canllaw cynllunio atodol perthnasol (h.y. dylunio, cadwraeth ac ati); unrhyw ystyriaethau cynllunio pwysig eraill ac asesiad cychwynnol o'r datblygiad arfaethedig, yn seiliedig ar yr uchod / gwybodaeth a gyflwynwyd.

**Gwybodaeth i'w chyflwyno gyda'ch ymholiad:**

Yn ogystal â'r ffurflen wedi'i chwblhau, dylai'r cynllun lleoliad ddangos lleoliad yr eiddo lle bydd y datblygiad arfaethedig yn digwydd. Dylid amlinellu ardal y safle mewn coch er mwyn gallu nodi maint y safle. Dylai cynllun y safle ddangos lleoliad y tŷ annedd o ran unrhyw briffyrdd ac eiddo gerllaw/cyfagos. Dylech nodi ar y cynllun hwn lle bydd y datblygiad yn digwydd, o fewn cwrtil yr eiddo.

Dylech roi awyrlun bras o'r safle hefyd sy'n dangos lleoliad a maint y tŷ annedd gwreiddiol, lleoliad unrhyw estyniadau/addasiadau blaenorol i'r eiddo a thynnu sylw at leoliad y datblygiad arfaethedig mewn rhyw ffordd, naill ai drwy liniogi neu liwio'r ardal. Dylech hefyd ddiffinio maint eich cwrtil domestig (Fel arfer, y parsel o dir sy'n gysylltiedig â'r tŷ annedd yw hwn er mwynhad preswylwyr y tŷ annedd ac mae'n eithrio unrhyw dir arall a allai fod o fewn eich perchnogaeth (e.e. padog neu gae)).

Bydd angen ffotograffau o bob drychiad i'r tŷ annedd. Labelwch y ffotograffau hyn fel ei bod yn glir o le maent wedi'u cymryd a pha ddrychiad a ddangosir yn y llun.

**Os na fyddwch yn darparu'r holl wybodaeth berthnasol, mae'n bosibl y byddwn yn dychwelyd eich ymholiad i chi.**

Ticiwch bob blwch sy'n berthnasol ac ewch i adrannau perthnasol y ffurflen fel a nodir.

☐ Estyniadau neu ehangiadau i'r eiddo presennol (gan gynnwys inswleiddio'r wal allanol) – ***Ewch i Adran 1***

☐ Addasiadau neu ehangiadau neu ychwanegiadau i do'r annedd - ***Ewch i Adran 2***

☐ Codi adeilad allan, neu addasu adeilad allan presennol er enghraifft garej, tŷ gwydr, sied ar wahân – ***Ewch i Adran 3***

☐ Creu neu ddisodli arwyneb caled – ***Ewch i Adran 4***

☐ Gosod, addasu neu ddisodli antena microdon – ***Ewch i Adran 5***

☐ Amgaeon ffiniol er enghraifft ffens, wal neu gât – ***Ewch i Adran 6***

☐ Gosod offer microgynhyrchu domestig – ***Ewch i Adran 7***

**1. Eich manylion:**

Enw:

Cyfeiriad:

Cod post: Rhif Ffôn:

E-bost:

**2. Cyfeiriad y cynnig os yw'n wahanol i'r uchod:**

**3. Pa fath o eiddo ydyw?**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Tŷ sengl neu dŷ pâr: | ☐ | Fflat neu randy: | ☐ |
| Tŷ teras: | ☐ | Arall (nodwch): | |

**(dilewch fel sy'n briodol)**

**4. A yw'r eiddo yn Adeilad Rhestredig?** Ydi / Nac Ydi

**5. A yw'r eiddo mewn Ardal Gadwraeth?** Ydi / Nac Ydi

**6. A fydd y datblygiad arfaethedig yn effeithio ar unrhyw wrychoedd neu goed?** Bydd / Na Fydd

*Os Bydd, nodwch ar gynllun y safle lle mae'r gwrychoedd neu goed hyn a disgrifiwch sut yr effeithir arnynt.*

**7. Beth a gynigir?**

Rhowch ddisgrifiad llawn o'r cynnig.

**Disgrifiad:**

**8. CYFRINACHEDD**

O dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, gellir ond dal deunydd cyn-cais yn ôl oddi wrth y cyhoedd pe gallai ei ddatgelu niweidio buddiannau masnachol, rhwystro darparu cyngor neu gyfnewid barn yn rhydd ac agored yn ystod y broses gynllunio, neu pe gallai amharu ar ymddygiad effeithiol materion cyhoeddus. Yn gyffredinol, unwaith y bydd cais cynllunio wedi'i gyflwyno ac yn y parth cyhoeddus, ni ellir trin gwybodaeth a gyflwynwyd a chyngor a roddwyd yn gyfrinachol mwyach. Mae'r Cyngor yn cadw disgresiwn llwyr ar ddatgelu unrhyw wybodaeth sydd ganddo. Os ydych yn dymuno i'r Cyngor drin deunydd cyn ymgeisio'n gyfrinachol, yna bydd angen i chi nodi yn y gofod isod y rhesymau pam ac am ba hyd, bod angen i unrhyw wybodaeth sy'n ymwneud â'r cyngor a roddwyd aros yn gyfrinachol.

A ydych yn dymuno i'r Cyngor drin gwybodaeth cyn ymgeisio yn ymwneud â'r cyngor yn gyfrinachol?

Ydw / Nac ydw **(Dilëwch fel sy'n briodol)**

Rhesymau pam bod angen trin unrhyw wybodaeth sy'n ymwneud â'r cyngor yn gyfrinachol:

Cyfnod o amser mae angen i'r wybodaeth sy'n ymwneud â'r cyngor aros yn gyfrinachol:

**9. Cynllun Lleoliad**

Gwiriwch y blwch isod i gadarnhau eich bod wedi cyflwyno cynllun sy'n dangos y tir y mae'r cais hwn yn berthnasol iddo, a luniwyd i raddfa gydnabyddedig ac yn dangos cyfeiriad y gogledd.

*Rwyf wedi atodi cynllun lleoliad sy'n bodloni'r gofynion a amlinellir uchod:* ☐

**10. Ffi**

*Rwy'n cadarnhau bod y ffi gywir o £25 wedi ei chynnwys gyda'r ffurflen ymholiad cyn ymgeisio:* ☐

Gellir cael rhagor o wybodaeth am ffioedd ymholiad statudol cyn gwneud cais ar y ddolen ganlynol:

http://www.conwy.gov.uk/doc.asp?cat=2368&doc=15905&Language=2

## Datganiad

Llofnod:

Dyddiad:

**Dychwelwch y ffurflenni, cynlluniau, ffi a gwybodaeth ategol berthnasol:**
Dros e-bost i gwasanaethau.rheoleiddio@conwy.gov.uk neu
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Gwasanaethau Rheoleiddio a Thai, Rheoli Datblygu, Swyddfeydd Dinesig, Bae Colwyn, LL29 8AR
Os hoffech siarad gyda rhywun, ffoniwch: (01492 575247)

**ADRAN 1:** **Estyniadau neu ehangiadau i'r eiddo presennol (gan gynnwys inswleiddio'r wal allanol).** *Cyfeiriwch at wybodaeth i'w chyflwyno gyda'r ymholiad (tudalen 2).*

**1.1** Os yw'r eiddo wedi'i ymestyn o'r blaen, llenwch y tabl canlynol. **Rhowch y mesuriadau canlynol mewn metrau.**

| Darperwch unrhyw gyfeirnod caniatâd cynllunio sy'n gysylltiedig â'r estyniad | Hyd | Lled | Cyfanswm uchder | Uchder at y bargod (gweler canllawiau) | Blwyddyn cwblhau |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |

**1.2** Os ydych yn bwriadu gosod ffenestr yn lloriau uchaf y tŷ annedd gwreiddiol neu'r datblygiad arfaethedig, nodwch ar y braslun yr ydych wedi'i ddarparu neu ar y ffotograffau, leoliad y ffenestr hon o ran y ffin agosaf. Nodwch os bydd unrhyw ffenestr o'r fath yn cynnwys gwydr tywyll a/neu os na fydd yn agor. Os bydd yn ffenestr sy'n agor, nodwch uchder y rhan o'r ffenestr y mae modd ei hagor uwchben lefel llawr/grisiau mewnol.

**1.3** Darperwch fesuriadau'r estyniad(au) arfaethedig. **Rhowch y mesuriadau allanol canlynol mewn metrau.**

| | Hyd | Lled | Cyfanswm uchder | Uchder i'r bargod | Beth yw'r pellter byrraf o'r estyniad arfaethedig i'r ffin agosaf | Manylion am olwg deunyddiau a ddefnyddir yn y waliau, to neu elfennau eraill o unrhyw waith allanol | Disgrifiwch ddefnydd arfaethedig yr estyniad |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Estyniad 1** | | | | | | | |
| Mesuriadau'r llawr gwaelod | | | | | | | |
| Mesuriadau'r llawr uchaf | | | | | | | |

| Estyniad 2 | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Mesuriadau'r llawr gwaelod | | | | | | | |
| Mesuriadau'r llawr uchaf | | | | | | | |

**1.4** A oes unrhyw ran o'r datblygiad arfaethedig yn uwch na'r eiddo presennol? Oes / Nac Oes

**1.5** Os ydych yn bwriadu gosod inswleiddiad i'r wal allanol, nodwch pa mor bell y bydd yr inswleiddiad yn ymestyn tuag allan o ddrychiad yr annedd.

**1.6** A fydd y datblygiad arfaethedig yn cynnwys teras to, balconi neu lwyfan uchel? Bydd / Na Fydd

**ADRAN 2:** **Addasiadau neu ehangiadau neu ychwanegiadau i do'r annedd gwreiddiol.** *Cyfeiriwch at wybodaeth i'w chyflwyno gyda'r ymholiad (tudalen 2).*

**2.1** Os yw to'r annedd gwreiddiol wedi'i ymestyn o'r blaen, llenwch y tabl canlynol. **Rhowch y mesuriadau canlynol mewn metrau.**

| Darperwch unrhyw gyfeirnod caniatâd cynllunio sy'n gysylltiedig â'r estyniad | Hyd | Lled | Cyfanswm uchder | Uchder at y bargod | Blwyddyn cwblhau |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |

**2.2** Os ydych yn cynnig addasiadau/ehangiadau i'r to, nodwch fesuriadau llawn yr ehangiadau/addasiadau yn y blychau isod. **Rhowch y mesuriadau allanol canlynol mewn metrau.**

| | Hyd | Lled | Cyfanswm uchder | Uchder i'r bargod | Manylion am olwg deunyddiau a ddefnyddir yn y waliau, to neu elfennau eraill o unrhyw waith allanol | Pellter agosaf o'r ehangiad i fargod y to presennol (wrth fesur ar hyd llethr y to presennol) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Estyniad 1** | | | | | | |
| **Estyniad 2** | | | | | | |
| **Estyniad 3** | | | | | | |

**2.3** A fydd unrhyw ran o'r datblygiad arfaethedig yn uwch na'r eiddo presennol? Bydd / Na Fydd

**2.4** A fydd y datblygiad arfaethedig yn cynnwys teras to, balconi neu lwyfan uchel? Bydd / Na Fydd

**2.5** Os yw'r datblygiad arfaethedig yn cynnwys ffurf arall o addasiad i'r to, disgrifiwch ef isod:

**2.6** Os ydych yn cynnig gosod golau to ar lethr gwreiddiol y to nodwch y pellter y bydd y golau to yn ymestyn o wastad llethr gwreiddiol y to:

**ADRAN 3:** **Codi adeilad allan, neu addasu adeilad allan presennol.** *Cyfeiriwch at wybodaeth i'w chyflwyno gyda'r ymholiad (tudalen 2).*

**3.1** Nodwch fesuriadau llawn y datblygiad yn y tabl isod. **Rhowch y mesuriadau allanol canlynol mewn metrau.**

| | Hyd | Lled | Cyfanswm uchder | Uchder i'r bargod | Beth yw'r pellter byrraf o'r datblygiad arfaethedig i'r ffin agosaf | Beth yw'r pellter byrraf o'r datblygiad arfaethedig i'r tŷ annedd | Disgrifiwch ddefnydd arfaethedig y datblygiad |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Datblygiad 1 | | | | | | | |
| Datblygiad 2 | | | | | | | |
| Datblygiad 3 | | | | | | | |

**3.2** A fydd mwy nag un llawr yn yr adeilad? Bydd / Na Fydd

**3.3** A fydd unrhyw ran o'r gwaith arfaethedig o fewn 2 fetr i ffin ac a fydd yn uwch na 2.5m o ran uchder? Bydd / Na Fydd

**ADRAN 4:** **Creu neu ddisodli arwyneb caled.** *Cyfeiriwch at wybodaeth i'w chyflwyno gyda'r ymholiad (tudalen 2).*

**4.1** Nodwch yn y tabl isod arwynebedd y llawr caled a'r deunyddiau a gynigir eu defnyddio wrth ei adeiladu. **Rhowch y mesuriadau canlynol mewn metrau.**

| | Hyd | Lled | A fydd yr arwyneb caled yn fandyllog neu'n athraidd neu a fydd yn draenio ar arwyneb mandyllog/athraidd yn ffiniau eich cartref? |
|---|---|---|---|
| Datblygiad 1 | | | |
| Datblygiad 2 | | | |

**ADRAN 5:** **Gosod, addasu neu ddisodli antena microdon.** *Cyfeiriwch at wybodaeth i'w chyflwyno gyda'r ymholiad (tudalen 2).*

**5.1** Nodwch nifer yr antena sydd eisoes wedi'u gosod ar yr annedd ac o fewn y cwrtil:

**5.2** Nodwch yn y tabl isod fesuriadau'r antena arfaethedig:

| | Hyd | Lled | Dyfnder |
|---|---|---|---|
| Antena 1 | | | |
| Antena 2 | | | |

**5.3** A fydd yr antena ynghlwm wrth simnai'r eiddo? Bydd / Na Fydd

**5.4** A fydd yr antena yn uwch na chorn simnai'r eiddo? Bydd / Na Fydd

**5.5** Os nad oes simnai ar yr eiddo, a fydd yr antena'n uwch na rhan uchaf y to? Bydd / Na Fydd

**5.6** A yw uchder cyffredinol yr annedd yn uwch na 15 metr? Ydi / Nac Ydi

**ADRAN 6:** **Codi, addasu, disodli neu gynnal a chadw amgaead (e.e. ffens, gât, wal).** *Cyfeiriwch at wybodaeth i'w chyflwyno gyda'r ymholiad (tudalen 2).*

**6.1** A fydd yr amgaead yn gyfagos i briffordd? Bydd / Na Fydd

**6.2** Nodwch linell arfaethedig yr amgaead ar gynllun.

Nodwch uchder yr amgaead (os yw'r uchder yn amrywio, dylech nodi pwynt uchaf yr amgaead i'r pwynt isaf pan gaiff ei fesur mewn un lleoliad). **Rhowch y mesuriadau canlynol mewn metrau.**

**6.3** Os yw'r cynnig yn golygu addasu, disodli neu gynnal a chadw amgaead, nodwch uchder y strwythur presennol mewn metrau.

**ADRAN 7:** **Gosod offer microgynhyrchu domestig.**

**7 (A)** **Offer solar ffotofoltäig neu solar thermal:**

**7.1** A fydd yr offer yn cael ei osod ar:

Ar wal: Bydd / Na Fydd — To ar ongl: Bydd / Na Fydd

To fflat: Bydd / Na Fydd — neu Ar eu pen eu hun:? Bydd / Na Fydd

**7.2** Os bydd yr offer ar wal neu do ar ongl, atebwch (a), (b) ac (c) (os yw'n berthnasol) isod:

**(a)** Pa mor bell fyddai'r offer yn ymwthio allan wrth eu mesur ar ongl sgwâr o'r wal neu lethr y to?

**(b)** A fyddai'r offer yn ymwthio allan yn uwch na rhan uchaf y to (ar wahân i'r simnai?) Bydd / Na Fydd

**(c)** Os yw'r wal lle gosodir yr offer mewn Ardal Gadwraeth, a yw'n wynebu priffordd? Ydi / Nac Ydi

**7.3** Os caiff yr offer eu gosod ar do fflat, atebwch (a) a (b) isod:

**(a)** Pa mor bell fydd yr offer o ymyl allanol y to?

**(b)** Pa mor uchel fydd yr offer yn ymwthio allan uwchben gwastad y to?

**7.4** Os yw'r offer am fod ar wahân, atebwch gwestiynau (a) i (c) isod:

**(a)** Cyfanswm nifer yr offer solar presennol ac arfaethedig;

**(b)** Y pellter agosaf rhwng yr offer a'r briffordd;

**(c)** Nodwch yn y tabl isod fesuriadau'r offer arfaethedig (gan gynnwys y tai). **Rhowch y mesuriadau canlynol mewn metrau.**

| | Hyd | Lled | Uchder (uwchben lefel y ddaear) |
|---|---|---|---|
| Offer 1 | | | |
| Offer 2 | | | |

**7 (B)** **Gosod, addasu neu ddisodli simnai ar annedd, gan lunio rhan o system wresogi biomas neu system wresogi gwres a phŵer cyfunedig:**

**7.1** Pa mor uchel fydd y simnai'n ymwthio allan uwchben rhan uchaf y to (mewn metrau)?

**7.2** A fydd y simnai mewn Ardal Gadwraeth? Bydd / Na Fydd / Ddim yn gwybod

Os **'**Bydd**'** neu **'**Ddim yn gwybod**'**, atebwch (a) a (b) isod:

**(a)** A fydd y simnai ar brif ddrychiad neu ddrychiad ochr y tŷ annedd? Bydd / Na Fydd

**(b)** A fyddai'r simnai yn wynebu'r briffordd? Bydd / Na Fydd

**7 (C)** **Pympiau gwres ffynhonnell aer:**

**7.1** Nodwch gyfanswm nifer y (i) pympiau sy'n bodoli eisoes a (ii) pympiau gwres ffynhonnell aer arfaethedig ar yr annedd neu gwrtil:

**(i)** sy'n bodoli eisoes:

**(ii)** arfaethedig:

**7.2** A oes, neu a fydd, tyrbin gwynt ar wahân yng nghwrtil yr annedd? Bydd / Na Fydd

**7.3** Nodwch gyfaint allanol yr uned gywasgu awyr agored (gan gynnwys ei amgaead) mewn metrau ciwbig:

**7.4** Nodwch y pellter agosaf rhwng y pwmp gwres ffynhonnell aer a'r ffin agosaf:

**7.5** A fydd y pwmp gwres ffynhonnell aer ar do ar ongl? Bydd / Na Fydd

**7.6** A fydd y pwmp gwres ffynhonnell aer ar do fflat? Bydd / Na Fydd

Os 'Bydd', nodwch ei bellter o ymyl allanol y to hwnnw:

| |
|---|
| |

**7.7** A fydd y pwmp gwres ffynhonnell aer ar wal? Bydd / Na Fydd

Os 'Bydd', a yw'r wal honno'n wynebu priffordd? Bydd / Na Fydd

**7 (D) Tyrbin gwynt ar wahân:**

**7.1** Nodwch gyfanswm nifer (i) y tyrbinau gwynt presennol a'r ii) tyrbinau gwynt arfaethedig yng nghwrtil yr annedd:

**(i)** presennol:

**(ii)** arfaethedig:

**7.2** Nodwch leoliad y tyrbin ar y braslun gofodol y sonnir amdano uchod a nodwch y pellter i'r ffin agosaf:

| |
|---|
| |

**7.3** Nodwch uchder y tyrbin gwynt ar wahân o lefel y ddaear i bwynt uchaf y tyrbin, gan gynnwys y llafnau:

| |
|---|
| |

**7.4** Nodwch y pellter rhwng lefel y ddaear a rhan isaf unrhyw lafn:

| |
|---|
| |

**7.5** Nodwch hyd un llafn ar y tyrbin ar wahân:

| |
|---|
| |

**7.6** A fyddai'r tyrbin mewn Ardal Gadwraeth? Byddai / Na Fyddai / Ddim yn gwybod

Os 'Byddai' neu 'Ddim yn gwybod', a fyddai modd gweld y tyrbin o unrhyw briffordd sy'n ffinio â chwrtil yr annedd-dŷ? Byddai / Na Fyddai

SYLWER: Cyflwynwch gynllun lleoliad a chynllun braslun i fynd gyda'r ffurflen hon (gweler tudalen 2 – "Gwybodaeth i'w chyflwyno gyda'ch ymholiad")